## Cymorth gydag AA2 i ganolfannau: rhai awgrymiadau ar gyfer addysgu

**DS *natur y wybodaeth hon yw datblygu AA2. NID yw'r hyn sy'n dilyn yn rhoi atebion diffiniol – awgrymir ymresymiadau er mwyn dangos sgiliau AA2, ond mae CBAC yn argymell yn gryf y dylid eu datblygu ymhellach ac y dylai athrawon ac ymgeiswyr ddefnyddio eu syniadau a'u gwerthusiadau eu hunain mewn ymateb i'r deunyddiau sydd eisoes wedi'u darparu.***

Ar gyfer sgiliau AA2, mae'n bwysig cofio mai'r hyn a asesir yw sgiliau gwerthuso ac nid gwybodaeth a dealltwriaeth o'r cynnwys yn unig. Rhestrir y chwe bwled ar gyfer pob Thema o dan gynnwys AA1. NID cwestiynau mohonynt ond, yn hytrach, arwyddion o'r meysydd trafod a all godi mewn datganiad cwestiwn AA2 nodweddiadol. At hynny, wrth i ddeunydd AA1 gael ei astudio, holl bwrpas AA2 yw mynd ati i ddeall deunydd AA1 mewn ffordd feirniadol a gwerthusol sydd, yn sicr, yn ddisgyblaeth drylwyr ac academaidd.

Un o'r nodweddion mwyaf cyffredin a welir mewn adroddiad gan Brif Arholwr yw'r sylw rheolaidd bod ymgeiswyr ond **yn cyflwyno rhestrau o safbwyntiau** o blaid dadl a/neu sy'n ei herio, a hynny'n aml mewn ymateb i gwestiwn lle y disgwylir gwerthusiad. Felly, er enghraifft, gall cynllun marcio nodweddiadol restru pwyntiau bwled i'w hystyried ond nid yw eu hailadrodd yn dangos AA2. Mae'r ffordd y caiff pwyntiau eu **DEFNYDDIO** a'u **DATBLYGU** gan athrawon ac ymgeiswyr i lunio dadansoddiad beirniadol a gwerthusiad yn hollbwysig ac mae'n troi unrhyw ddeunydd awgrymedig yn ddadl academaidd sy'n adlewyrchu disgrifyddion Band AA2.

Nid oes dim o'i le ar baratoi'ch ystyriaethau a'ch myfyrdodau ar bwnc mewn ymateb i'r adran ar 'Materion i'w gwerthuso a'u dadansoddi' yn y Fanyleb; fodd bynnag, yr hyn sy'n bwysig yw **sicrhau bod rhyw fath o ddadansoddi neu sylwadau personol drwy'r ateb cyfan** a all gael **eu defnyddio wedyn i ddod i gasgliad rhesymol.**

Mae sgiliau gwerthuso a dadansoddi yn cyflwyno eu hunain fel deialog barhaus rhwng llais y dystiolaeth neu'r safbwyntiau rydych yn eu dewis, a'ch llais eich hun, gyda chi, yn y diwedd, yn cael y gair olaf gan nodi'ch safbwynt yn glir [casgliad(au)].

**Uned 5 : Athroniaeth Crefydd**
**Thema 1: Heriau i gred grefyddol (rhan 2)**

Mae Athroniaeth Crefydd Thema 1 ABC yn ystyried chwe man cychwyn i ganolbwyntio arnynt wrth werthuso.

## Y pwynt bwled cyntaf yw ystyried i ba raddau y gellir ystyried mai niwrosis yw cred grefyddol?

### Gellir defnyddio'r chwe phwynt canlynol fel man cychwyn wrth ddatblygu dadl addas:

1. Mae crefydd yn gwbl niwrotig fel y dangosir gan gyflawni dymuniad. Mae'r meddwl dynol yn creu credoau a delweddau i fodloni ein dyheadau a'n dymuniadau mwyaf sylfaenol, yn enwedig pan fyddwn dan bwysau ac mewn perygl. Felly, mae cred grefyddol yn galluogi pobl i ddeall eu byd a'i lywio.
2. Mae crefydd yn seiliedig ar ofn ac euogrwydd; mae hyn yn adlewyrchu'r anhwylderau y gwnaeth Freud ymdrin â nhw yn ei ymarfer ac mae'n cael ei adlewyrchu yn ei ddamcaniaeth totemiaeth. Mae credoau o'r fath yn amharu ar iechyd meddwl person.
3. Y nod mewn bywyd yw meddu ar ego cryfach er mwyn cyfryngu rhwng ysgogiadau'r hunaniaeth a disgwyliadau'r uwch-ego. Nodir bod crefydd yn rhan o'r uwch-ego, gan arwain at ofnau na ellir 'bodloni' disgwyliadau afrealistig.
4. Roedd Freud yn rhagfarnllyd oherwydd ei brofiad negyddol o grefydd, astudiaeth gyfyngedig o grefydd yn seiliedig ar yr hyn a wyddai am Iddewiaeth a Christnogaeth. Ymddengys nad yw'n ymwybodol o draddodiadau dwyreiniol, yn enwedig Bwdhaeth yn ogystal â chyfriniaeth.
5. Nid niwrosis mo crefydd: mae'n fyffer hanfodol rhwng pobl a'r byd ac mae'n ddefnyddiol, gyda rôl debyg i gerddoriaeth neu gelf. Nid yw crefydd yn fwy o rith na gwyddoniaeth, gyda'r ddau yn ein galluogi i ddehongli'r byd. Felly, gall leihau niwrosis.
6. Nid yw presenoldeb cyffredinol Cymhleth Oedipus/Electra na'r cysylltiad rhwng crefydd a'r cymhlethion hyn wedi'u profi. Mae barn Freud mai niwrosis yw crefydd yn fwy damcaniaethol nag yw'n wir.

### Gallai cwestiynau allweddol a all godi gynnwys y canlynol:

- A oes gan fabanod a phlant bach ofnau a dyheadau pwerus o ran eu rhieni?
- A ellir defnyddio'r term 'rhywiol' i ddisgrifio perthynas baban â'i rieni?
- A yw pobl yn troi at grefydd am fod ganddynt ofn bywyd hebddo, neu a allent droi at grefydd o safbwynt dewrder a chryfder?
- A all crefydd roi hunaniaeth iach i rywun neu a oes rhaid i rywun bob amser ildio rhan werthfawr o'i hunaniaeth er mwyn bod yn grefyddol?
- A yw damcaniaethau Freud yn gymwys i'r rheini sy'n grefyddol, ond nad ydynt yn credu mewn Duw personol (neu unrhyw Dduw o gwbl)?
- A all gwyddoniaeth brofi bod pawb sy'n grefyddol rywsut yn fwy diffygiol yn feddyliol na'r rheini nad ydynt yn grefyddol?

### Gallai casgliadau posibl i rai dadleuon a gyflwynwyd gynnwys y canlynol:

- Mae Freud yn gywir bod crefydd yn niwrosis sy'n atal datblygiad iach.
- Mae Freud yn anghywir: mae crefydd yn cyfoethogi bywyd ac yn arwydd o greadigrwydd a gwerthoedd dynol.
- Mae Freud yn rhoi disgrifiad da o beth all crefydd fod i rai pobl; ond nid yw'n rhoi cyfrif am gyfriniaeth na mathau o grefydd y tu hwnt i fath penodol o undduwiaeth sy'n hyrwyddo Duw fel ffigwr tadol llym ac awdurdodol.

**Uned 5 : Athroniaeth Crefydd**
**Thema 1: Heriau i gred grefyddol (rhan 2)**

Mae Athroniaeth Crefydd Thema 1 ABC yn ystyried chwe man cychwyn i ganolbwyntio arnynt wrth werthuso.

**Nod yr ail bwynt bwled yw ystyried digonolrwydd esboniad Freud o gred grefyddol.**

Gellir defnyddio'r chwe phwynt canlynol fel man cychwyn wrth ddatblygu dadl addas:

1. Gallai damcaniaeth Freud gael ei chefnogi gan Darwin, a fyfyriodd gyntaf ynghylch lluoedd o bobloedd yn cael eu harwain gan wryw alffa.
2. Fe'i cefnogir gan Ludwig Feuerbach a ddadleuodd fod crefydd yn gyflwr plentyn a'n bod yn defnyddio ffigwr o'r enw 'Duw' i adlewyrchu'r rhinweddau hynny rydyn ni eu heisiau fwyaf. Cefnogir hyn gan y seicolegydd modern John Schumaker.
3. Bu Freud yn ymarfer am flynyddoedd ac roedd ei ddamcaniaethau yn seiliedig ar waith dadansoddi ac ymchwil. Mae tystiolaeth gyfoes fel yr hyn a gafwyd gan M.P. Carroll (1984) yn cefnogi gwaith Freud. 'Mae crefydd yn deillio o'r angen sydd gan ddynion i wneud eu diymadferthedd yn rhywbeth y gallant ei oddef.' – Freud.
4. Roedd geiriau Darwin ar y llu gwreiddiol yn rhai damcaniaethol. Ceir tystiolaeth o fwy o amrywiaeth o fewn strwythur y cymdeithasau cyntefig, e.e. enghraifft Bronislaw Malinowski o bobl Ynysoedd Trobriand: mae gan y bobl hyn strwythur teuluol o linach y fam yn hytrach na'r ddominyddiaeth wrywaidd a awgrymwyd gan Darwin.
5. Dim ond pum astudiaeth achos y mae Freud yn ei defnyddio i gefnogi ei waith: astudiaeth nad yw'n ddigon trylwyr ar gyfer dull gwyddonol dilys!
6. Yr hyn mae Freud yn ei dybio am Dduw o'r Cymhleth Oedipus, Totem a Thabŵ a themâu eraill yw bod Duw yn wrywaidd i gredinwyr crefyddol. Mae hyn yn anwybyddu'r crefyddau hynny â duwies neu ddim Duw o gwbl. Nid oes gan Fwdhaeth Theravada ffigwr tadol ac nid yw ychwaith yn gweld eisiau hynny. Nid yw Freud yn cynnig unrhyw ymateb i hyn.

Gallai cwestiynau allweddol a all godi gynnwys y canlynol:

- A yw pob math o fywyd anifail yn cynnwys y llu gwreiddiol a'r gwryw alffa?
- A yw crefydd fel cyflwr plentyn sydd angen 'dyn cryf' i wneud popeth yn well?
- A yw'r darganfyddiad seicolegol o'r ffordd mae ychydig o bobl yn dod i ystyried crefydd a Duw yn gymwys i bawb?
- A yw Duw yn wryw i bob crediniwr mewn crefyddau undduwiol?
- Pa draddodiadau crefyddol sydd heb unrhyw gysyniad o Dduw personol?

Gallai casgliadau posibl i rai dadleuon a gyflwynwyd gynnwys y canlynol:

- Mae ymagwedd Freud yn gam eofn ac angenrheidiol wrth wrthod crefydd sydd wedi'i greu a'i hyrwyddo gan eglwys bwerus a hunanlesol.
- Roedd Freud yn ddamcaniaethwr/hanesydd cadair freichiau na wnaeth gynnal digon o ymchwil i brofi unrhyw un o'i syniadau yn bendant.
- Cymerodd Freud gamau gwyddonol tuag at feirniadu crefydd; roedd hyn yn bwysig, ond mae gwyddoniaeth wedi datblygu ers ei amser gan adael rhai o'i ddamcaniaethau yn gyfan ac eraill mewn darnau.

**Uned 5 : Athroniaeth Crefydd**
**Thema 1: Heriau i gred grefyddol (rhan 2)**

Mae Athroniaeth Crefydd Thema 1 ABC yn ystyried chwe man cychwyn i ganolbwyntio arnynt wrth werthuso.

**Nod y trydydd pwynt bwled yw ystyried i ba raddau yr oedd Jung yn fwy cadarnhaol na Freud am y syniad o Dduw.**

Gellir defnyddio'r chwe phwynt canlynol fel man cychwyn wrth ddatblygu dadl addas:

1. Daeth Jung i'r casgliad fod Duw yn bodoli fel realiti seicig, grym integreiddio a chyfanrwydd. Felly, yn wahanol i Freud, nid yw Jung yn credu mai niwrosis negyddol yw crefydd.
2. Dadleuodd Jung fod crefydd yn bwysig i iechyd meddwl cadarnhaol; mae'n darparu symbolau a mythau sy'n gwrthsefyll effaith negyddol diwylliant materol a thechnolegol.
3. Yn ôl Jung, gall 'Duw' alluogi llawer o bobl i ddarganfod bod ganddynt fywyd anymwybodol; efallai mai'r straeon am Dduw o grefydd yw'r ffordd o ddarganfod bod mwy i fywyd na'n gweithgareddau presennol.
4. Mae 'Duw' yn air negyddol i Jung, os mai ystyr Duw yw enaid nad yw'n 'gyfan' fel hen ddyn â barf gwyn yn y nen sy'n sail i'n credoau cadarn.
5. Nid yw'n glir os yw Duw yn real i Jung. Cymerodd Jung brofiadau crefyddol a'u hegluro'n seicolegol – awgrymodd na allwn fyth gwybod a yw profiad crefyddol yn real neu'n cael ei greu gan y meddwl
6. Daeth Jung i'r casgliad fod Duw yn cael ei greu gan y meddwl – safbwynt lleihadol. Mae hyn yn debyg i ddadl Freud mai math o gyflawni dymuniad yw crefydd.

Gallai cwestiynau allweddol a all godi gynnwys y canlynol:

- A all pobl o'r un grefydd olygu pethau gwahanol pan ddefnyddir y gair 'Duw'?
- A oes angen straeon a mythau arnom fel rhan o fywyd iach – neu ai dim ond olion plentyndod ydynt?
- Oni ddylem fyw yn y byd ymwybodol – onid camu'n ôl i blentyndod yw mynd ar drywydd yr isymwybod?
- Beth yw enghraifft o'r gair 'Duw' yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd nad yw'n gwahardd pobl a syniadau?
- A all rhywbeth fod yn real yn y meddwl ond nid y tu allan iddo?

Gallai casgliadau posibl i rai dadleuon a gyflwynwyd gynnwys y canlynol:

- Mae Jung yn llawer mwy cadarnhaol am Dduw na Freud: mae Duw yn rym cyfanrwydd. Gall y cysyniad o Dduw agor ein bywydau i ddimensiwn dyfnach.
- Mae safbwynt Jung ond yn gadarnhaol os na dderbyniwch fersiwn o Dduw sy'n mynnu cred ddogmataidd a gwrthod eich taith bersonol eich hun.
- Mae Jung yn fwy cadarnhaol na Freud, ond nid yw'n glir o gwbl p'un a yw'n credu ym modolaeth Duw; y daith seicig yw 'Duw' i Jung.

## Uned 5 : Athroniaeth Crefydd
## Thema 1: Heriau i gred grefyddol (rhan 2)

Mae Athroniaeth Crefydd Thema 1 ABC yn ystyried chwe man cychwyn i ganolbwyntio arnynt wrth werthuso.

**Nod y pedwerydd pwynt bwled yw ystyried effeithiolrwydd ymagweddau empirig o ran beirniadu safbwyntiau Jungaidd ar grefydd.**

### Gellir defnyddio'r chwe phwynt canlynol fel man cychwyn wrth ddatblygu dadl addas:

1. Mae llawer o'r cysyniadau a'r termau seicolegol a fathwyd gan Jung wedi galluogi'r Dangosydd Myers-Briggs a ddefnyddir mewn profion personoliaeth modern i gael ei ddatblygu.
2. Gellir dangos effeithiau buddiol crefydd o ran hyrwyddo iechyd meddwl cadarnhaol.
3. Lluniodd Jung ei farn drwy arsylwi ar bobl yn archwilio'n gadarnhaol themâu crefyddol ar eu teithiau personol, ac mewn llenyddiaeth, barddoniaeth, cerddoriaeth ac ati.
4. Mae damcaniaethau Jung wedi cael eu beirniadu am nad ydynt yn cynnwys tystiolaeth empirig; nid yw'n glir o gwbl fod 'anymwybod cyffredinol' sy'n cynnwys archdeipiau fel Duw.
5. Nid oes unrhyw ffordd o brofi bod crefydd yn wir na hyd yn oed fod safbwyntiau Jung yn wir: yr unig beth y gellir ei brofi yw bod cred grefyddol yn gallu bod yn bwysig i rai pobl.
6. Roedd Jung yn creu ei grefydd ei hun, crefydd sy'n gwerthfawrogi'r enaid a'r anymwybod cyffredinol. Yn lle crefydd draddodiadol mae wedi cyflwyno ei grefydd seicdreiddiol ei hun.

### Gallai cwestiynau allweddol a all godi gynnwys y canlynol:

- A oes byd isymwybodol a rennir mewn gwirionedd?
- Beth yw archdeipiau a pha enghreifftiau y gallech eu gweld mewn pantomeim?
- Allwch chi feddwl am unrhyw un y mae crefydd yn beth cadarnhaol iddynt, gan gynnig iachâd, doethineb neu ddeallusrwydd?
- A yw'r ffaith bod mythau yn cynnwys rhai ffigyrau tebyg mewn diwylliannau a chyfnodau gwahanol yn profi bod dynoliaeth yn rhannu gwirionedd?
- A yw seicdreiddio yn grefydd ynddo'i hun?

### Gallai casgliadau posibl i rai dadleuon a gyflwynwyd gynnwys y canlynol:

- Mae safbwyntiau Jung yn fwy gwyddonol na rhai Freud: maen nhw’n adlewyrchu profiad nifer fawr o bobl y mae mythau a symbolau crefyddol yn apelio iddynt.
- Roedd Jung yn syml yn creu crefydd ryddfrydol newydd o'r enaid a'r daith seicig.
- Roedd Jung yn gywir i wrthod y cysylltiad negyddol a wnaeth Freud rhwng crefydd ac euogrwydd, ond nid yw ei ymagwedd yntau'n fwy gwyddonol am na all neb brofi bod y fath beth ag anymwybod cyffredinol.

**Uned 5 : Athroniaeth Crefydd**
**Thema 1: Heriau i gred grefyddol (rhan 2)**

Mae Athroniaeth Crefydd Thema 1 ABC yn ystyried chwe man cychwyn i ganolbwyntio arnynt wrth werthuso.

**Nod y pumed pwynt bwled yw ystyried llwyddiant dadleuon anffyddwyr yn erbyn cred grefyddol**

Gellir defnyddio'r chwe phwynt canlynol fel man cychwyn wrth ddatblygu dadl addas:

1. Mae pwyslais ar empiriaeth yn un o nodweddion Anffyddiaeth Newydd. Mae hyn yn gweddu i'n ffocws modern ar wyddoniaeth a'r ffaith ein bod yn ffafrio rhesymu casgliadol.
2. Mae crefydd yn tueddu at drais ac anwybodaeth –fel y gellir ei weld mewn achosion o gamdriniaeth eglwys hollalluog, trais crefyddol ac ysgolion ffydd yn gofyn am ymlyniad wrth grefydd cyn gallu mynychu. Mae anffyddwyr yn uniaethu â gwyddoniaeth sy'n ymladd anwybodaeth ac yn tanseilio goruchafiaeth grefyddol.
3. Mae gan wyddoniaeth lawer i'w gynnig i'r byd modern (nid dim ond atebion arwyddocaol ond ymdeimlad o fawredd a rhyfeddu at yr hyn y gellir ei ddarganfod), gan ateb llawer o'r materion hynny a drafodir yn ffurfiol gan grefydd.
4. Mae cred grefyddol ar gynnydd wrth i syniadau crefyddol newydd ddatblygu sy'n gwrthsefyll damcaniaethau anffyddwyr ynghylch bodolaeth Duw.
5. Ceir nifer gynyddol o wyddonwyr llafar sy'n gredinwyr crefyddol fel Francis Collins.
6. Pa mor 'wyddonol' yw'r honiad bod crefydd yn gysylltiedig â thrais ac anwybodaeth gan fod comiwnyddiaeth wedi'i noddi gan y wladwriaeth a chwyldroeon 'di-dduw' wedi bod yn gysylltiedig â thrais erchyll. I'r gwrthwyneb, mae llawer yn troi at grefydd fel ffynhonnell o foesoldeb.

Gallai cwestiynau allweddol a all godi gynnwys y canlynol:

- Ai gwyddonwyr sydd bob amser yn y sefyllfa orau i ddweud sut i fyw a gwneud penderfyniadau? A oes lle i ddoethineb crefyddol gydfodoli â gwyddoniaeth?
- A yw crefydd a gwyddoniaeth yn weithgareddau gwahanol, yn weithgareddau sy'n gorgyffwrdd neu'n weithgareddau hollol groes i'w gilydd?
- Dywed Alister McGrath y dylem boeni am drais sy'n digwydd pan na fydd crefydd yn rhan o gymdeithas mwyach – ydych chi'n cytuno?
- All gwyddoniaeth wneud yr un math o bethau â chrefydd: ysbrydoli, rhyfeddu, rhoi cyfeiriad moesol?
- A oes unrhyw ddadleuon cryf dros fodolaeth y goruwchnaturiol?
- A all person deallus gredu yn Nuw? Sut?

Gallai casgliadau posibl i rai dadleuon a gyflwynwyd gynnwys y canlynol:

- Mae dadleuon anffyddwyr yn gwneud dadleuon crefyddol yn dda i ddim am resymau empirig. Mae crefydd yn dibynnu ar ofergoeliaeth, 'Duw'r bylchau' a ffydd ddi-sail.
- Mae anffyddiaeth a chrefydd yn ddau weithgaredd gwahanol a all gydfodoli'n braf: mae gwyddoniaeth yn archwilio'r 'sut' mewn bywyd, mae crefydd yn archwilio'r 'pam'.
- Mae dadleuon anffyddwyr yn erbyn crefydd yn anecdotaidd ac yn anwyddonol – sut gallwch chi brofi bod crefydd yn arwain at drais?

**Uned 5 : Athroniaeth Crefydd**
**Thema 1: Heriau i gred grefyddol (rhan 2)**

Mae Athroniaeth Crefydd Thema 1 ABC yn ystyried chwe man cychwyn i ganolbwyntio arnynt wrth werthuso.

**Nod y chweched pwynt bwled yw ystyried i ba raddau y mae ymatebion crefyddol i Anffyddiaeth Newydd wedi bod yn llwyddiannus.**

Gellir defnyddio'r chwe phwynt canlynol fel man cychwyn wrth ddatblygu dadl addas:

1. Bu Anffyddiaeth Newydd yn llwyddiant am fod 'tröedigaethau anghrefyddol' bob blwyddyn lle mae pobl yn profi dioddefaint neu ddadleuon yn erbyn Duw ac yn gadael y ffydd.
2. Drwy ei sefydliad, mae Richard Dawkins wedi llwyddo i gefnogi gweinidogion ac offeiriaid a benderfynodd ddatgan eu bod yn anffyddwyr; mae hyn yn dangos llwyddiant Anffyddiaeth Newydd.
3. Mae Anffyddiaeth wedi cael sylw cyhoeddus er gwaethaf dadleuon crefyddol yn ei herbyn drwy sylw yn y wasg, gan gynnwys yr ymgyrch bysiau Anffyddiaeth.
4. Mae nifer cynyddol o apolegwyr crefyddol sy'n cyflwyno dadleuon rhesymegol i gefnogi credoau crefyddol. Mae Dr Shabir Ally (https://www.youtube.com/watch?v=WZ7aMRFYAnI) Mwslim ac Alister McGrath (https://www.youtube.com/results?search_query=alister+mcgrath+science), Cristion yn enghraifft o hyn.
5. Mae cyfeiriadaeth grefyddol yn parhau i ddwyn dylanwad yn y byd a llywio meddylfryd crefyddol yn fwy nag erioed efallai.
6. Mae tystiolaeth *nad* yw treigl amser wedi arwain at lai o wyddonwyr sy'n credu mewn Duw personol; mae hyn yn gwrthddweud y farn bod crefydd ac anwybodaeth yn perthyn i'w gilydd.

Gallai cwestiynau allweddol a all godi gynnwys y canlynol:

- Os yw dadleuon anffyddwyr yn bwerus pam mae cred grefyddol yn parhau yn ein cymdeithas?
- Pam mae pobl ifanc ddeallus yn astudio diwinyddiaeth a chrefydd yn y brifysgol?
- A yw gwyddonwyr blaenllaw sy'n credu yn Nuw ond yn gwneud hynny am nad ydyn nhw erioed wedi meddwl am eu ffydd mewn gwirionedd?
- A yw ethol Donald Trump, poblogrwydd y Pab a'r parch a ddangosir tuag at y Dalai Lama yn dangos bod crefydd yn ddeniadol ac ar gynnydd – neu ei bod yn rym peryglus yn y byd?
- A yw pob crediniwr crefyddol yn credu yn 'Nuw'r Bylchau'? Sut arall y gellir gweld Duw?
- A all crediniwr crefyddol hefyd dderbyn esblygiad?

Gallai casgliadau posibl i rai dadleuon a gyflwynwyd gynnwys y canlynol:

- Mae ymatebion crefyddol i anffyddiaeth wedi dangos, mewn ffordd ddarbwyllol, fod anffyddiaeth yn rhagfarnllyd ac yn anwyddonol o ran crefydd.
- Nid yw ymatebion crefyddol i anffyddiaeth yn ddarbwyllol am nad oes, yn syml, dystiolaeth empirig i ategu cred grefyddol.
- Nid oes gan barhad cred grefyddol er gwaethaf heriau anffyddwyr unrhyw beth i'w wneud â'r ymatebion crefyddol i anffyddiaeth. Yn hytrach mae oherwydd gwerth cymdeithasol neu seicolegol.

**Uned 5 : Athroniaeth Crefydd**
**Thema 2 : Profiad Crefyddol (Rhan 2)**

Mae Athroniaeth Crefydd Thema 2 ABC yn ystyried chwe man cychwyn i ganolbwyntio arnynt wrth werthuso.

**Nod y pwynt bwled cyntaf yw ystyried effaith profiadau crefyddol ar gredoau ac arferion crefyddol.**

Gellir defnyddio'r chwe phwynt canlynol fel man cychwyn wrth ddatblygu dadl addas:

1. Gall profiadau crefyddol fod yn fwy cyffredin nag a gredir – o fewn cymunedau crefyddol a'r tu allan iddynt, gan wneud i rai pobl gredu yn y natur ddwyfol (e.e. Nicky Cruz) a/neu i eraill werthfawrogi'r gymuned ffydd.
2. Mae tröedigaethau, fel yr hyn a brofwyd gan St Paul, yn hyrwyddo newid dramatig mewn ymddygiad moesol, credoau ac yn llywio cred eraill.
3. Mae profiadau crefyddol yn hanfodol i sawl ffydd ledled y byd. Yn wir, cyn i ysgrythurau gael eu hysgrifennu a chyn i draddodiadau ddatblygu, mae yna sylfaenydd sydd â phrofiad o'r gwir dwyfol (Moses, Abraham, Muhammad ac ati); mae crefydd yn dechrau gyda phrofiad. Mae llawer o ddefodau crefyddol (e.e. ewcharist) yn nodi ac yn dathlu'r profiadau hyn.
4. A allwn ni wahanu profiad crefyddol oddi wrth arfer crefyddol? Onid yw'r ddau beth ynghlwm wrth ei gilydd? Mae cred ac arfer crefyddol yn rhoi'r iaith a'r cyd-destun i ni gael profiadau.
5. Gall ailadrodd, dysgu ar y cof a defodau fod yn elfennau pwysig o'n bywydau p'un a ydynt yn arwain at 'brofiadau mawr' neu'n cyd-fynd â nhw.
6. Efallai mai'r gwrthwyneb sy'n wir – y gall cred ac arfer crefyddol sbarduno profiadau! Efallai na fyddai'r sylfaenwyr crefyddol erioed wedi cael y profiadau a gawsant heb y rolau cymdeithasol a deallusol mwy cyffredin a chwaraeodd crefydd yn eu bywydau.

Gallai cwestiynau allweddol a all godi gynnwys y canlynol:

- A all pobl sydd y tu allan i grefydd ffurfiol gael profiadau crefyddol?
- A yw 'cyd-ddigwyddiad' arbennig o ystyrlon yn brofiad crefyddol?
- Beth yw rôl 'profiad' ym mywydau sylfaenwyr crefyddol?
- Sut mae mannau crefydd yn nodi ac yn dathlu profiadau crefyddol?
- A all cymryd rhan mewn defod hefyd fod yn brofiad crefyddol?
- A oes ffynonellau eraill o ffydd sy'n fwy pwysig i gredinwyr (o ran cred ac arfer) fel testunau sanctaidd neu esiampl foesol eu harweinwyr?

Gallai casgliadau posibl i rai dadleuon a gyflwynwyd gynnwys y canlynol:

- Ni allech gael crefyddau heb brofiad crefyddol – dyma sylfaen crefyddau a'r hyn sy'n eu cynnal.
- Ni allwch gael profiad crefyddol heb ddechrau gyda 'chynhwysydd' defod, traddodiad ac ysgrythur.
- Mae pobl yn cael profiadau crefyddol nad ydynt o reidrwydd yn arwain at arfer na chredu mewn crefydd benodol.

**Uned 5 : Athroniaeth Crefydd**
**Thema 2 : Profiad Crefyddol (Rhan 2)**

Mae Athroniaeth Crefydd Thema 2 ABC yn ystyried chwe man cychwyn i ganolbwyntio arnynt wrth werthuso.

**Nod yr ail bwynt bwled yw ystyried p'un a yw cymunedau crefyddol yn gwbl ddibynnol ar brofiadau crefyddol.**

Gellir defnyddio'r chwe phwynt canlynol fel man cychwyn wrth ddatblygu dadl addas:

1. Yn y pen draw, cafodd profiadau fel Moses a'r Llwyn yn Llosgi a thröedigaeth St Paul effaith ddwys ar gymuned grefyddol ehangach a hyd yn oed y byd ehangach!
2. Mae profiad crefyddol personol wrth wraidd bod yn aelod o rai traddodiadau a chymryd rhan ynddynt – Sufiaeth yn Islam ac urddau mynachaidd myfyriol, Cristnogaeth Garismataidd, Iddewiaeth Hasidig ac ati.
3. Gall yr ysgrythur gael ei hawdurdod o adrodd ar brofiadau: Muhammad yn cael y Qur'an gan yr Angel Jibril, geiriau Iesu yn deillio o brofiadau, profiad y Bwdha o oleuedigaeth ac ati.
4. Gall y sawl sy'n cael profiad crefyddol gael eu temtio i aros gyda'r profiad (a cheisio profiadau eraill) yn hytrach na gwneud y pethau mwy cyffredin a phwysig a ragnodir gan grefydd (h.y. arfer cariad anhunanol).
5. Nid oes angen i chi gael profiad crefyddol dramatig i ymuno â llawer o gymunedau crefyddol nac i gymryd rhan ynddynt.
6. Mae rhai cymunedau crefyddol yn annog pobl i beidio â cheisio profiadau ac i fynd ar drywydd ffyddlondeb, bywyd moesol ac ati. Mae rhai honiadau o brofiad crefyddol yn cael eu hamau'n fawr.

Gallai cwestiynau allweddol a all godi gynnwys y canlynol:

- A oes crefydd NAD oes ganddo brofiad crefyddol sylfaenydd yn sail iddo?
- Pa grefyddau neu draddodiadau sy'n pwysleisio rhyw fath o brofiad gan bob aelod?
- Pa brofiadau a arweiniodd at destun crefyddol penodol (y Beibl, y Qur'an, ysgrythurau Pali ac ati)?
- A all rhywun gael profiad ysbrydol neu grefyddol, ond parhau i fod yn gwbl hunanol a hunan-ganolog?
- A yw profiadau crefyddol dramatig yn cael eu gwrthbwyso mewn rhai traddodiadau crefyddol?
- A ellir meddu ar ffydd grefyddol ystyrlon, a chyfranogi felly, heb gael profiadau ysbrydol na chrefyddol?

Gallai casgliadau posibl i rai dadleuon a gyflwynwyd gynnwys y canlynol:

- Byddai cymunedau crefyddol yn marw pe na bai eu haelodau yn cofio profiadau crefyddol eu sylfaenwyr, ac yn cael profiadau crefyddol eu hunain.
- Rhoddir gormod o bwyslais ar brofiadau crefyddol; mae'n bwysicach byw bywyd moesol a ffyddlon a chymryd rhan reolaidd mewn defodau ni waeth sut mae rhywun yn teimlo.
- Mae profiad crefyddol ond yn un agwedd ar grefydd; mae'n amhosibl dweud pa ddimensiwn sydd bwysicaf.

**Uned 5 : Athroniaeth Crefydd**
**Thema 2 : Profiad Crefyddol (Rhan 2)**

Mae Athroniaeth Crefydd Thema 2 ABC yn ystyried chwe man cychwyn i ganolbwyntio arnynt wrth werthuso.

**Nod y trydydd pwynt bwled yw ystyried pa mor ddigonol yw'r ddiffiniadau gwahanol o wyrthiau.**

Gellir defnyddio'r chwe phwynt canlynol fel man cychwyn wrth ddatblygu dadl addas:

- Mae gwyrthiau yn anarferol ac yn aml yn bersonol - ymddengys yn beth rhesymegol cael amrywiaeth o ddiffiniadau.
- Mae nodweddion tebyg yn perthyn i'r ffordd y mae gwyrthiau'n cael eu diffinio e.e. Duw yn rhyngweithio â natur mewn rhyw ffordd. Mae Richard Swinburne, David Hume a Thomas Aquinas i gyd yn derbyn hyn.
- Wrth hanfod y cysyniad o wyrth mae'r gofyniad i ymyrryd mewn amgylchiadau gwahanol. Mae'r diffiniadau gwahanol yn dynodi cynllun cyffredinol Duw ar gyfer byd gwahanol a chymhleth.
- Mae'n anodd diffinio gwyrth lle mae gan ddiwinyddion ac ysgolheigion amrywiaeth o safbwyntiau.
- Mae gwyddoniaeth yn herio'r diffiniadau traddodiadol – ni all deddfau natur gael eu torri fel mae Thomas Aquinas ac eraill wedi awgrymu.
- Nid yw'r cysyniad o ddigwyddiad goruwchnaturiol neu wyrth fel y'i disgrifir yn y Beibl yn dderbyniol mwyach yn yr ugeinfed ganrif.

Gallai cwestiynau allweddol a all godi gynnwys y canlynol:

- Os yw digwyddiad yn torri deddfau natur, a yw'n mynd yn erbyn cynllun Duw ar gyfer y cread?
- Os oes angen i Dduw ymyrryd mewn natur, a yw hyn yn golygu y gall ei gynlluniau fynd o chwith?
- Os yw Duw yn ymyrryd i achub un person ond nid un arall, a yw hyn yn cyfaddawdu ei natur hollgariadus?
- Os nad yw Duw yn cyflawni gwyrthiau, ai'r rheswm dros hyn yw na all wneud hynny?
- A yw gwyrth wir yn wyrth os nad yw'n torri deddfau natur?

Gallai casgliadau posibl i rai dadleuon a gyflwynwyd gynnwys y canlynol:

- Mae'r diffiniad o wyrth fel torri deddfau natur, yn ôl Hume, yn ddigonol am ei fod yn disgrifio digwyddiad na ellir ei egluro mewn unrhyw ffordd arall heblaw am drwy gyfeirio at Dduw. Mae hyn yn golygu y gall pawb wybod am ba fathau o ddigwyddiadau rydyn ni'n sôn ac nid oes unrhyw siawns o gamddehongli unigol.
- Nid yw'r diffiniad o wyrth fel cyd-ddigwyddiad buddiol, gan Holland, yn ddigonol am ei fod yn golygu y gall bron unrhyw ddigwyddiad gael ei ystyried yn wyrthiol, hyd yn oed os gellir ei egluro drwy ddeddfau natur. Mae hyn yn golygu y gall gwyrthiau gael eu dehongli i raddau helaeth, sy'n lleihau effaith y digwyddiad yn hytrach na rhoi arwyddocâd dwyfol iddo.
- Nid yw'n bosibl rhoi diffiniad digonol o wyrth o gwbl am fod digwyddiadau o'r fath yn fytholegol eu natur ac felly ni fwriedir eu cymryd yn llythrennol. Gall y straeon hyn ddweud wrth bobl am gydberthynas yr awdur â Duw ond ni ellir byth eu defnyddio fel sail diffiniad am nad dyna oedd eu bwriad.

## Uned 5 : Athroniaeth Crefydd
## Thema 2 : Profiad Crefyddol (Rhan 2)

Mae Athroniaeth Crefydd Thema 2 ABC yn ystyried chwe man cychwyn i ganolbwyntio arnynt wrth werthuso.

### Nod y pedwerydd pwynt bwled yw ystyried i ba raddau y gellir ystyried bod y diffiniadau gwahanol o wyrthiau yn gwrthddweud ei gilydd a'u bod felly yn methu â chefnogi traddodiadau crefyddol

#### Gellir defnyddio'r chwe phwynt canlynol fel man cychwyn wrth ddatblygu dadl addas:

1. Mae gan Thomas Aquinas ac R.F. Holland ddiffiniadau sy'n gwrthddweud ei gilydd ac nad oes ganddynt unrhyw beth yn gyffredin am fod Duw Aquinas yn ymyrryd mewn natur tra bod Holland yn derbyn cyd-ddigwyddiadau syml.
2. Mae diffiniad David Hume yn honni bod credu mewn gwyrthiau yn ddwl, am nad oes digon o dystiolaeth empirig ar eu cyfer. Mae hyn yn groes i ysgolheigion eraill sydd o'r farn bod rhyngweithio Duw â natur yn gwbl resymegol.
3. Yn y bôn, mae gan Aquinas dri diffiniad gwahanol o wyrth ac felly ni all hyd yn oed gytuno â'i hun a yw Duw yn torri deddfau naturiol ai peidio.
4. Mae pwysigrwydd ffydd (sy'n oddrychol) mewn gwyrthiau yn golygu y bydd diffiniadau gwahanol sy'n ymddangos fel petaent yn gwrthddweud ei gilydd.
5. Nid oes yr un ysgolhaig na diwinydd, nid hyd yn oed David Hume, yn gwadu na all gwyrthiau ddigwydd. Yn hytrach, mae'r drafodaeth yn ystyried p'un a all y wyrth gael ei phrofi ai peidio.
6. Mae'r ystod enfawr o wyrthiau a nodwyd yn herio un diffiniad. Yn wir, nid oes unrhyw reswm pam na allai Duw ymyrryd yn y byd mewn amryw o ffyrdd gwahanol.

#### Gallai cwestiynau allweddol a all godi gynnwys y canlynol:

- A oes rhaid i Dduw weithredu yn yr un ffordd bob tro mae'n gweithredu?
- A yw diffiniad, fel un Hume, bob amser yn eithrio'r posibilrwydd o ddiffiniadau eraill (fel un Holland)?
- A oes unrhyw ddiffiniadau o wyrth yn gwrthddweud eu hunain?
- A yw unrhyw rai o'r diffiniadau hyn o wyrth yn gwrthddweud rhinweddau traddodiadol a theistig Duw?
- A yw diffiniad Hume o wyrth yn golygu na allai digwyddiad o'r fath byth ddigwydd?

#### Gallai casgliadau posibl i rai dadleuon a gyflwynwyd gynnwys y canlynol:

- Mae diffiniadau o wyrthiau yn gwrthddweud ei gilydd? Mae angen i bawb weithio gyda'r un diffiniad o wyrth er mwyn siarad amdani. Os yw pawb yn gweithio gyda diffiniadau gwahanol, nid oes ffordd o sicrhau bod trafodaethau damcaniaethol yn ystyrlon na hyd yn oed yn bosibl.

- Nid yw'r diffiniadau gwahanol o wyrth yn gwrthddweud ei gilydd. Yn hytrach maen nhw'n disgrifio'r ffyrdd niferus ac amrywiol y gallai'r creawdwr ddewis rhyngweithio â'i greadigaeth. Gallai rhai gwyrthiau gael eu cynllunio i fod yn drech na deddfau naturiol, ond efallai nad oes angen i eraill wneud hynny.

- Nid oes gwahaniaeth a yw diffiniadau o wyrthiau yn gwrthddweud ei gilydd ai peidio. Yn y pen draw, mae'n fwy pwysig i'r crediniwr fod rhyngweithio o ryw fath wedi digwydd rhwng Duw a dynol ryw ac mae'r ffordd y mae hynny'n digwydd yn gymharol ddibwys. Nodir yn Marc i'r Iesu hyd yn oed wrthod cyflawni gwyrthiau lle nad oedd ffydd. Mae'r hyn a ddigwyddodd yn llai pwysig na'r gred yn Nuw y mae'n ei hategu.

## Uned 5 : Athroniaeth Crefydd
## Thema 2 : Profiad Crefyddol (Rhan 2)

Mae Athroniaeth Crefydd Thema 2 ABC yn ystyried chwe man cychwyn i ganolbwyntio arnynt wrth werthuso.

## Nod y pumed pwynt bwled yw ystyried effeithiolrwydd yr heriau i gredu mewn gwyrthiau.

### Gellir defnyddio'r chwe phwynt canlynol fel man cychwyn wrth ddatblygu dadl addas:

1. Gall credu mewn gwyrthiau gael ei herio'n hawdd fel y gwna David Hume: mae tystiolaeth bersonol tystion yn amheus am sawl rheswm ac ni ddylai gael ei derbyn.
2. Ni all deddfau natur, sydd wedi'u sefydlu dros y canrifoedd ac yr arsylwir arnynt yn empirig, gael eu torri.
3. Byddai Ray Holland yn dadlau bod gwyrthiau yn gyd-ddigwyddiadau yn hytrach na Duw yn torri deddfau natur, ac mai dim ond pobl grefyddol sy'n gweld y digwyddiad fel gwyrth.
4. Credir mewn gwyrthiau ar sail ffydd, felly ni wnaiff honiadau o dystiolaeth empirig annigonol ddarbwyllo credinwyr crefyddol.
5. O fewn Islam a Christnogaeth, mae gwyrthiau yn hanfodol i gadarnhau ffydd crediniwr a dangos arwyddocâd y ffydd honno.
6. Mae Richard Swinburne yn dadlau bod gwyrth, fel arwydd gan Dduw, yn dynodi rhywbeth y tu hwnt i'w hun. Mae'n ategu cydlyniad ffydd grefyddol.

### Gallai cwestiynau allweddol a all godi gynnwys y canlynol:

- Faint o ddadleuon Hume sy'n ymosod ar bobl grefyddol yn hytrach na'r posibilrwydd o wyrthiau?
- A yw heriau Hume yn ei gwneud yn amhosibl i wyrthiau ddigwydd?
- A all digwyddiad, fel troi dŵr yn win, gael ei ystyried yn wyrthiol o hyd os nad ymddengys fod unrhyw ddiben mawr iddo?
- A yw'n dderbyniol i bobl gael ffydd mewn Duw sy'n cyflawni gwyrthiau hyd yn oed pan fo'n mynd yn erbyn pob rheswm?
- Beth yw deddf natur? Sut mae'n gweithio?

### Gallai casgliadau posibl i rai dadleuon a gyflwynwyd gynnwys y canlynol:

- Nid oes unrhyw ffordd y gall rhywun dderbyn yn rhesymegol Dduw sy'n ymyrryd ac yn cyflawni gwyrthiau tra hefyd yn ei dderbyn fel creawdwr hollgariadus ex nihilo mewn byd o ddioddefaint. Felly, mae'r heriau i wyrthiau yn effeithiol oherwydd, yn y pen draw, mae credu mewn gwyrth yn rhoi gormod o bwysau ar gymeriad Duw theistiaeth.
- Nid yw'r heriau i wyrthiau yn effeithiol am eu bod yn dibynnu ar gamddealltwriaeth o ddeddfau natur a'r ffordd maen nhw'n gweithio. Nid yw deddfau o'r fath yn debyg i ddeddfau moesol y mae'n rhaid ufuddhau iddynt. Maen nhw'n ddeddfau disgrifiadol sy'n egluro beth y gallem fel arfer ddisgwyl iddo ddigwydd. Felly, nid oes unrhyw broblem lle mae Duw yn gweithredu'n groes i ddeddfau o'r fath yn y byd.
- Nid yw'r heriau i wyrthiau yn berthnasol am nad yw'n gwneud unrhyw wahaniaeth pa fathau o ddadleuon empirig a wneir yn erbyn realiti'r hyn sy'n wyrthiol. Bydd crediniwr yn derbyn realiti gwyrthiau am resymau eraill. Fel arfer mae ei ffydd yn deillio o brofiad personol o'r hyn sy'n ddwyfol, neu mae'n ffydd a fodolai eisoes nad oes ganddo ddim i'w wneud â dadl resymegol.

## Uned 5 : Athroniaeth Crefydd
## Thema 2 : Profiad Crefyddol (Rhan 2)

Mae Athroniaeth Crefydd Thema 2 ABC yn ystyried chwe man cychwyn i ganolbwyntio arnynt wrth werthuso.

## Nod y chweched pwynt bwled yw ystyried i ba raddau y gellir derbyn bod ymatebion Swinburne i Hume yn ddilys

### Gellir defnyddio'r chwe phwynt canlynol fel man cychwyn wrth ddatblygu dadl addas:

1. Mae rhai sefyllfaoedd lle mae'n eithaf cymhleth dadlau na ddigwyddodd gwyrth ac yn gymharol symlach dadlau iddi ddigwydd.
2. Mae Swinburne yn cydnabod ei bod yn anodd gorbwyso tystiolaeth wyddonol, ond heb hyn, y casgliad rhesymegol yw ei bod yn wyrth.
3. Mae egwyddorion tystiolaeth a hygoeledd yn cario pwysau: rhaid i ni ymddiried yn nhystiolaeth unigolion er mwyn cyflawni ein busnes beunyddiol. Pan ddown ar draws honiad anarferol a wneir gan berson sydd fel arall yn ddibynadwy, rhaid i ni gymryd yr honiad hwnnw o ddifrif.
4. Heb ddeall gwyddoniaeth, gallai rhywun gynnig rhesymau goruwchnaturiol a gwyrthiol dros ddigwyddiad.
5. Nid oes gan wyrthiau ddigon o dystiolaeth empirig i'w hategu.
6. Dadleua Hume fod y rhai sy'n honni iddynt weld gwyrth yn gwneud hynny am fod ganddynt rywbeth i'w ennill, felly mae eu tystiolaeth yn rhagfarnllyd ac ni ddylid dibynnu arni.

### Gallai cwestiynau allweddol a all godi gynnwys y canlynol:

- A yw dadl 'ad hominem' ('i ddyn' neu un sy'n dibynnu ar 'ymosodiad personol') byth yn ddilys?
- A oes rheswm da dros gredu tystiolaeth crediniwr crefyddol?
- A fydd yr esboniad symlaf, neu fwyaf credadwy, o ddigwyddiad hynod, byth yn nodi mai Duw ydoedd?
- A yw'n deg casglu nad yw Duw yn bodoli oherwydd (i) bod cynifer o bobl ddibynadwy yn credu yn Nuw a (ii) bod y gred i'w chael mewn diwylliannau a chrefyddau gwahanol?
- A oes modd pwyso a mesur tystiolaeth pobl mewn gwirionedd? Sut mae gwybod a yw rhywun yn dweud y gwir?

### Gallai casgliadau posibl i rai dadleuon a gyflwynwyd gynnwys y canlynol:

- Mae heriau Swinburne i Hume yn ddilys oherwydd mae llawer o heriau Hume yn ddadleuon 'ad hominem' sydd, yn anghywir, yn ymosod ar yr unigolyn yn hytrach na'r posibilrwydd rhesymegol o wyrthiau. Mae'r rhai nad ydynt yn perthyn i'r categori hwn wedi'u gwrthddweud yn rhesymegol gan Swinburne yn syml drwy egluro'r diffiniadau o ddeddfau natur.
- Nid yw heriau Swinburne i Hume yn ddilys am fod Hume yn cynnig beirniadaeth ar gynifer o lefelau. Er y gall fod modd gwrthddweud pob her, mae'r dadleuon hyn gan Hume yn cael 'effaith gynyddol', sef bod y nifer fawr o resymau dros wrthod hanesion am wyrthiau yn ddigon i olygu y dylid eu gwrthod.
- Mae heriau Swinburne i Hume yn rhannol ddilys. Mae'n bragmataidd wrth osgoi'r holl amheuaeth y gallem ymgolli ynddi petaem yn amau pob honiad a glywn. Fodd bynnag, nid yw Swinburne yn mynd i'r afael â'r ffaith bod gennym reswm sylweddol dros amau honiadau crediniwr dim ond am ei fod yn honni rhywbeth mor rhyfeddol.

## Uned 5 : Athroniaeth Crefydd
## Thema 3 : Iaith grefyddol (rhan 1)

Mae Athroniaeth Crefydd Thema 3 ABC yn ystyried chwe man cychwyn i ganolbwyntio arnynt wrth werthuso.

**Nod y pwynt bwled cyntaf yw ystyried y datrysiadau a gyflwynir gan athronwyr crefyddol ar gyfer y problemau cynhenid sy'n codi o ddefnyddio iaith grefyddol**

### Gellir defnyddio'r chwe phwynt canlynol fel man cychwyn wrth ddatblygu dadl addas:

1. Mae iaith grefyddol yn fath penodol o iaith sydd â'i swyddogaeth ei hun. Nid oes angen iddi gael ei phrofi'n empirig i ddwyn ystyr.
2. Gallwn ddefnyddio cydweddiadau er mwyn deall pethau nad oes gennym wybodaeth lawn amdanynt. Felly, gall cydweddiadau gael eu defnyddio i gyfleu credoau crefyddol (Aquinas).
3. Mae iaith grefyddol yn mynegi rhywbeth sy'n bwysicach na ffaith – mae'n mynegi agwedd tuag at fywyd ('blik' gan R.M. Hare)
4. Rydyn ni’n gyfarwydd â chyfeirnod ein hiaith ym myd y synhwyrau – gall datganiadau gael eu dilysu'n empirig. A bod yn fanwl gywir, 'nonsens' yw iaith grefyddol.
5. Mae angen i ddatganiadau allu cael eu profi'n anwir o leiaf. Os yw credinwyr crefyddol yn amodi eu haeriadau ormod yna maen nhw’n dangos na ellir eu profi'n anwir ac felly eu bod yn anystyrlon (Flew).
6. Mae cydweddiadau Aquinas ond yn gweithio os oes gennych wybodaeth flaenorol am Dduw. Ni all gwybodaeth am Dduw gael ei phrofi mewn unrhyw ffordd a ddefnyddiwn fel arfer i brofi pethau.

### Gallai cwestiynau allweddol a all godi gynnwys y canlynol:

- A yw pob crediniwr crefyddol yn cymryd ei gredoau'n llythrennol?
- A oes modd siarad am bethau anghrefyddol nad ydyn ni’n eu deall yn iawn?
- A ydyn ni am i'n holl ddatganiadau fod yn rhai y gellir eu dilysu neu brofi eu bod yn anwir?
- A all unrhyw rai apelio i'r synhwyrau o ran eu cred ym modolaeth y byd dwyfol?
- I ba raddau mae'r diffyg cytundeb rhwng credinwyr yn gwanhau eu honiadau?

### Gallai casgliadau posibl i rai dadleuon a gyflwynwyd gynnwys y canlynol:

- Dim ond iaith y gellir ei dilysu gan y synhwyrau a all gyfrif fel iaith ystyrlon. Ni ellir dilysu iaith grefyddol felly mae'n anystyrlon.
- Nid oes rhaid meddu ar wybodaeth am gredoau crefyddol y gellir ei phrofi'n gyfan gwbl i wneud datganiadau ystyrlon. Gall iaith grefyddol ddefnyddio cydweddiad er mwyn siarad am realiti dwyfol.
- Gall iaith grefyddol fod yn 'ddiystyr' ('non-sense') ac yn ystyrlon ar yr un pryd. Hynny yw, gallwch dderbyn nad yw iaith grefyddol yn gwneud honiadau dilysadwy ond gan fynegi agwedd tuag at y byd sy'n helpu pobl i fyw gydag ystyr.

**Uned 5 : Athroniaeth Crefydd**
**Thema 3 : Iaith grefyddol (rhan 1)**

Mae Athroniaeth Crefydd Thema 3 ABC yn ystyried chwe man cychwyn i ganolbwyntio arnynt wrth werthuso.

**Nod yr ail bwynt bwled yw ystyried cyd-destun penodol cred grefyddol er mwyn deall iaith grefyddol.**

Gellir defnyddio'r chwe phwynt canlynol fel man cychwyn wrth ddatblygu dadl addas:

1. Dim ond yng nghyd-destun cred grefyddol y gellir deall iaith grefyddol yn gywir (meddyliwch am ddefodau penodol); gwyddom hyn am fod cymunedau yn datblygu ffyrdd unigol iawn o gyfleu ystyr.
2. Gellir gwneud camgymeriadau pwysig os nad yw pobl yn deall cyd-destun y gred a'u bod yn gwneud tybiaethau am yr iaith a ddefnyddir.
3. Er y gellir cael tröedigaeth o un ffydd i'r llall, nid yw pobl mewn crefyddau gwahanol yn gwneud hynny fel arfer; mae hyn yn pwysleisio'r ffaith mai eu cyd-destun nhw sy'n rhoi ystyr i'w credoau – nid y ffaith eu bod yn 'wir yn wrthrychol'.
4. Ni chredai sylfaenwyr crefyddol mai'r gymuned oedd yn rhoi ystyr i'w hiaith – credent eu bod yn dod i gysylltiad â Duw mewn ffordd a oedd yn wir yn wrthrychol a oedd wedyn yn dylanwadu ar y gymuned.
5. Mae'r ffaith bod pobl yn rhannu eu ffydd, yn cymryd rhan mewn deialog rhyng-ffydd, yn ceisio troi eraill at eu ffydd nhw ac yn cymryd rhan mewn dadleuon yn profi bod credoau crefyddol yn ddealladwy y tu allan i'w cyd-destunau.
6. Gall iaith grefyddol gael ei deall yn hawdd y tu allan i gymunedau crefyddol os ystyrir ei bod yn cyfleu agweddau yn hytrach na honiadau gwrthrychol ynghylch realiti.

Gallai cwestiynau allweddol a all godi gynnwys y canlynol:

- Pa enghreifftiau sydd o eiriau 'pob dydd' a ddefnyddir gan gredinwyr, ond sydd ag ystyron cwbl wahanol?
- Ydych chi'n cytuno bod crefyddau ond yn siarad â'r rheini a anwyd i mewn iddynt?
- Allwch chi feddwl am enghraifft o ddiwylliant sy'n newid oherwydd credoau crefyddol 'newydd'?
- A oes y fath beth â thröedigaeth grefyddol neu ai dim ond dros dro maen nhw?
- A yw agweddau crefyddol yn iach neu'n afiach?

Gallai casgliadau posibl i rai dadleuon a gyflwynwyd gynnwys y canlynol:

- Dim ond 'wrth ei defnyddio' y gellir deall iaith grefyddol – yn ôl y rheolau dealltwriaeth a ddarperir gan y cymunedau penodol y mae'n digwydd ynddynt. Heb hyn, mae'n siŵr o gael ei chamddeall.
- Mae iaith grefyddol yn gwneud honiad am natur realiti gwrthrychol. Felly, dylai gael ei thrin fel rhagdybiaeth a all gael ei phrofi mewn modd gwyddonol.
- Mae iaith grefyddol yn ddarbwyllol y tu mewn a'r tu allan i gymunedau crefyddol. Y ffordd orau o ddeall crefydd yw deall y gymuned, ond mae'r ffaith bod crefydd yn dylanwadu ar ddiwylliant yn dangos y gall gael effaith y tu allan i gymunedau.

## Uned 5 : Athroniaeth Crefydd
## Thema 3 : Iaith grefyddol (rhan 1)

Mae Athroniaeth Crefydd Thema 3 ABC yn ystyried chwe man cychwyn i ganolbwyntio arnynt wrth werthuso.

**Nod y trydydd pwynt bwled yw ystyried pa mor berswadiol yw dadleuon sy'n honni bod iaith grefyddol naill ai'n llawn ystyr neu'n ddiystyr.**

### Gellir defnyddio'r chwe phwynt canlynol fel man cychwyn wrth ddatblygu dadl addas:

1. Gellir dangos bod iaith grefyddol ystyrlon yn berswadiol drwy ddweud bod ansawdd 'rhywbeth mwy' i fywyd yn bodoli mewn sawl rhan o fywyd – ysbrydoli cerddoriaeth, celf, estheteg ac ati. Mae crefydd yn debyg i'r meysydd hyn.
2. Rydyn ni’n cymryd camau breision yn ein hiaith a'n rhesymeg drwy'r amser – hyd yn oed mewn gwyddoniaeth: mae rhywun yn egluro cysyniad ac mae'n rhaid i ni ddefnyddio ein dychymyg i lenwi'r bylchau. Mae hyn yn debyg i 'ddatgeliad' Ramsay yn y byd crefyddol.
3. Nid yw ein bywydau wedi'u gwneud o ddatganiadau dilysadwy, ond o argyhoeddiadau ac agweddau. Mae R.B. Braithwaite ac R. M. Hare yn dadlau bod gan iaith grefyddol ystyr am ei bod yn cyfleu syniadau ac agweddau.
4. Y broblem gydag iaith grefyddol yw bod gan unigolion ddehongliadau gwahanol o'r cysyniadau a all olygu eu bod yn amwys ac, felly, yn anystyrlon.
5. Mae angen i hyd yn oed wirioneddau anllythrennol fod wedi'u seilio ar yr hyn y gall ein synhwyrau arsylwi arno i fod yn ystyrlon. Nid yw amddiffynwyr diwylliedig crefydd wedi darparu'r 'sail' hon o hyd.
6. Pam bod angen crefydd arnom er mwyn gwneud synnwyr o'n bywydau? Onid all ymdeimlad o fawredd ac ysbrydoliaeth ddeillio o edrych ar gymhlethdod bywyd a ddatgelir gan wyddoniaeth?

### Gallai cwestiynau allweddol a all godi gynnwys y canlynol:

- Bydd llawer o'r rheini sydd ynghlwm wrth wyddoniaeth a'r celfyddydau yn siarad am 'ysbrydoliaeth' yn eu gwaith. O ble y daw'r ysbrydoliaeth?
- Pa enghreifftiau sydd o'r camau breision sydd eu hangen er mwyn deall syniad gwyddonol?
- A ellir teimlo 'mawredd' neu 'ysbrydoliaeth' heb i gerddoriaeth, barddoniaeth, crefydd, llenyddiaeth ddylanwadu arnoch – a dim ond drwy gael eich amlygu i wyddoniaeth?
- Pa mor eang yw'r reddf 'rhywbeth mwy na'r byd materol' am fywyd?
- A yw honiadau crefyddol gwahanol am realiti dwyfol yn cryfhau neu'n gwanhau'r syniad crefyddol bod realiti dwyfol?

### Gallai casgliadau posibl i rai dadleuon a gyflwynwyd gynnwys y canlynol:

- Mae dadleuon o blaid ystyr iaith grefyddol yn berswadiol am eu bod yn cefnogi ymdeimlad eang o 'ddatgeliad' a deimlir gan lawer – ni waeth pa ffurf ar fywyd maent yn ynghlwm wrthi.
- Nid yw dadleuon o blaid ystyr iaith grefyddol yn berswadiol am nad yw amddiffynwyr crefydd yn gallu darparu tystiolaeth o hyd yn oed 'Dduw' anllythrennol fel ffynhonnell bywyd o hyd.

  Mae'n amhosibl dweud a yw dadleuon o blaid iaith grefyddol yn ddarbwyllol am fod y dadleuon hyn yn cyfeirio, yn y pen draw, at rywbeth a all ond ddod yn hysbys mewn bywyd ar ôl marwolaeth. Y mwyaf y gellid ei ddweud am yr honiadau hyn yw y 'gellid' eu dilysu yn yr eschaton.

**Uned 5 : Athroniaeth Crefydd**
**Thema 3 : Iaith gr**

Mae Athroniaeth Crefydd Thema 3 ABC yn ystyried chwe man cychwyn i ganolbwyntio arnynt wrth werthuso.

**Nod y pedwerydd pwynt bwled yw ystyried i ba raddau y dylid derbyn bod Positifiaeth Resymegol yn darparu maen prawf dilys o ran pennu ystyr pan ddefnyddir iaith grefyddol.**

## Gellir defnyddio'r chwe phwynt canlynol fel man cychwyn wrth ddatblygu dadl addas:

1. Yr unig ffordd o beidio â bod yn wystl twyllresymeg yw i bob iaith ddilyn yr un rheolau. Yn achos datganiadau synthetig, mae Positifiaeth Resymegol yn mynnu bod iaith yn cyfateb i fyd y synhwyrau. Nid yw iaith grefyddol; felly mae'n anwir.
2. Mae Positifiaeth Resymegol yn faen prawf dilys os yw’n cael ei ddehongli'n 'wan' yn hytrach nag yn 'gryf'. Hynny yw, rhaid bod modd dilysu honiad hyd yn oed os na ellir ei ddilysu ar unwaith. Pan ddilysir iaith grefyddol mewn ffordd wan, mae'n dal i fethu'r prawf.
3. Positifiaeth Resymegol yw sail gwyddoniaeth ac, fel y cyfryw, yr unig ffordd o wneud cynnydd yn y byd. Mae crefydd yn cynrychioli 'atchweliad'.
4. Mae Positifiaeth Resymegol yn methu'r ffaith nad yw diben na swyddogaeth iaith grefyddol yn wybyddol. Mae iaith grefyddol yn cyfleu agweddau nid ffeithiau – a gall yr agweddau hyn fod yn bwysicach na ffeithiau; felly, mae iaith grefyddol yn ystyrlon.
5. Mae llawer o gredinwyr crefyddol yn Bositifwyr Rhesymegol ac yn derbyn her dilysu. Fodd bynnag, mae rhai credinwyr crefyddol yn credu mai dim ond yn yr eschaton y gall dilysu ddigwydd (dilysu eschatolegaidd)
6. Mae'n bosibl i ddatganiadau fod ag ystyr ond na ellir eu dilysu – mae enghraifft 'cwpwrdd teganau' Swinburne yn datgelu ein bod yn defnyddio iaith yn ystyrlon hyd yn oed pan na ellir ei dilysu.

## Gallai cwestiynau allweddol a all godi gynnwys y canlynol:

- Pa reolau a ddefnyddiwn wrth bennu p'un a yw datganiad yn wir neu'n anwir?
- Ai gwyddoniaeth yw'r unig ddisgyblaeth sydd ynghlwm wrth bennu ystyr yn ein bywydau?
- Beth yw’r gwahaniaeth rhwng dilysiad 'gwan' a 'chryf'?
- A yw agweddau yn bwysicach na ffeithiau?
- A yw meddylfryd crefyddol yn rhywbeth anwyddonol o reidrwydd?

## Gallai casgliadau posibl i rai dadleuon a gyflwynwyd gynnwys y canlynol:

- Dylai Positifiaeth Resymegol gael ei derbyn yn gyffredinol fel sail i bennu ystyr. Y rheswm dros hyn yw ein bod wedi byw yn ddigon hir gydag effeithiau twyllresymeg, rhith a chamddefnyddio pŵer gan grefydd.
- Dylai Positifiaeth Resymegol gael ei gwrthod fel yr unig sail i ystyr am nad ydyn ni ond yn canfod ystyr mewn datganiadau gwybyddol mewn gwirionedd. Mae bywyd yn mynnu ein bod yn datblygu agweddau ac argyhoeddiadau sydd ar wahân i'r hyn y gellir ei brofi ac mae crefydd iach yn un ffordd o wneud hyn.
- Dylai Positifiaeth Resymegol gael ei defnyddio i brofi honiadau crefyddol, ond dylem gofio na fydd efallai'n bosibl i rai honiadau crefyddol gael eu pennu'n wir neu'n anwir yn y byd hwn. Felly, gellir cyfiawnhau barn agnostig.

## Uned 5 : Athroniaeth Crefydd
## Thema 3 : Iaith grefyddol (rhan 1)

Mae Athroniaeth Crefydd Thema 3 ABC yn ystyried chwe man cychwyn i ganolbwyntio arnynt wrth werthuso.

**Nod y pumed pwynt bwled yw ystyried i ba raddau y mae'r heriau i Bositifiaeth Resymegol yn darparu dadleuon argyhoeddiadol i anghredinwyr crefyddol?**

### Gellir defnyddio'r chwe phwynt canlynol fel man cychwyn wrth ddatblygu dadl addas:

1. Mae llawer o fathau o iaith yn delio â chysyniadau haniaethol ac ni all y rhain gael eu dilysu na'u profi'n anwir fel yr hoffai Positifwyr Rhesymegol ei weld. Byddai hyn yn gymwys i ddatganiadau crefyddol ac anghrefyddol. Gwelwn ystyr mewn celf, cerddoriaeth a barddoniaeth – pam ddim crefydd?
2. Nid ymddengys fod credinwyr crefyddol mewn unrhyw frys i wrthod eu hagweddau crefyddol yn sgil Positifiaeth Resymegol. Efallai fod hyn oherwydd bod angen agweddau arnom er mwyn llywio ein rhyngweithio â ffeithiau niferus bywyd.
3. Mae llawer o gredinwyr o'r farn bod diwinyddiaeth yn cynnig rhesymau darbwyllol dros natur ddilys haeriadau crefyddol. Er enghraifft, mae Mitchell a Hick o'r farn bod disgyblaeth theodiciaeth yn cadarnhau haeriadau crefyddol fel datganiadau gwybyddol. Mae'r ffaith bod gan theodictaeth hanes hir a chyfoethog yn un ffordd o brofi na wnaiff Positifiaeth Resymegol ddylanwadu ar bob cred grefyddol efallai.
4. I Bositifydd Rhesymegol, mae iaith sy'n siarad am Dduw yn anystyrlon am na ellir dangos bod Duw yn wir nac yn anwir drwy arsylwadau neu brofion.
5. Mae Anthony Flew yn dadlau bod iaith grefyddol yn dioddef drwy law mil o amodau am fod credinwyr yn gallu amodi unrhyw her yn barhaus. Mae'r amodau hyn yn profi nad oedd y datganiad crefyddol yn wybyddol yn y lle cyntaf.
6. Mae Positifiaeth Resymegol yn ddarbwyllol am ei bod yn adlewyrchu tuedd hirsefydledig a datblygol lle gosodir agwedd empirig tuag at wirionedd wrth wraidd ymdrechion dynol. Mae crefydd, ar y llaw arall, yn dynodi gorffennol ofergoelus.

### Gallai cwestiynau allweddol a all godi gynnwys y canlynol:

- A yw'n anwyddonol canfod ystyr mewn celf, barddoniaeth, llenyddiaeth a cherddoriaeth?
- Mae crefydd yn parhau i fod yn gryf ac yn gadarn er gwaethaf cynifer o lyfrau a dadleuon gan Bositifwyr Rhesymegol. Pam felly?
- A oes gan gredinwyr resymau da dros gredu yn Nuw er gwaethaf dioddefaint? A yw unrhyw un o'r rhesymau hyn yn wybyddol ei natur?
- A all agwedd grefyddol helpu rhai pobl i fyw bywyd ystyrlon?
- Pa haeriadau crefyddol rydych wedi eu clywed na allant gael eu dilysu?

### Gallai casgliadau posibl i rai dadleuon a gyflwynwyd gynnwys y canlynol:

- Mae Positifiaeth Resymegol yn gwbl argyhoeddiadol am ei bod yn adeiladu ar ymagwedd empirig tuag at fywyd sy'n dylanwadu ar benderfyniadau a wnawn am iechyd a thechnoleg o ddydd i ddydd. Nid ydyn ni am fyw bywydau yn seiliedig ar ofergoeliaeth, ond ar yr hyn y gellir ei brofi.
- Nid yw Positifiaeth Resymegol yn argyhoeddiadol am ei bod yn anwybyddu'r hyn sydd wrth wraidd ein bywydau yn fwy na ffaith: agweddau, gwerthoedd, ac estheteg. Mae gan grefydd fwy i'w wneud â'r meysydd hyn na gwyddoniaeth.
- Mae Positifiaeth Resymegol yn berthnasol ac yn amherthnasol i asesiad o iaith grefyddol. Ar yr un llaw, gallwn ddefnyddio'r ymagwedd hon i archwilio dilysrwydd honiadau crefyddol; fodd bynnag, rhaid i ni dderbyn y gall rhai honiadau crefyddol ond cael eu dilysu yn y dyfodol ac felly fod lle i ffydd.

## Uned 5 : Athroniaeth Crefydd
## Thema 3 : Iaith grefyddol (rhan 1)

Mae Athroniaeth Crefydd Thema 3 ABC yn ystyried chwe man cychwyn i ganolbwyntio arnynt wrth werthuso.

### Nod y chweched pwynt bwled yw ystyried a yw dehongliadau anwybyddol yn ymateb dilys i'r heriau i ystyr iaith grefyddol.

#### Gellir defnyddio'r chwe phwynt canlynol fel man cychwyn wrth ddatblygu dadl addas:

- Mae dehongliadau anwybyddol yn ddilys am fod bywyd yn llawn 'mewnwelediad' (Ramsay) lle sylweddolwn fod mwy i fywyd na'r dimensiwn gofod-amseryddol. Mae iaith grefyddol yn dyst i'r fath fewnwelediad, gan roi iaith ac ystyr arbennig iddo.
- Mae dehongliadau anwybyddol yn ddilys am nad ydynt bob amser yn galw am ddehongliad llythrennol (diamwys). Mae Aquinas yn dangos yn effeithiol sut mae cydweddiad yn darparu math o wybodaeth sy'n dilyn llwybr canol rhwng dehongliadau diamwys ac amwys.
- Mae dilysiaeth yn mynd yn groes i'ch bwriad eich hun: sut gallwch ddilysu'r honiad bod pob datganiad synthetig yn gorfod cael ei ddilysu mewn ffordd empirig? Os derbyniwn yr her hon, yna mae lle i ymagweddau anwybyddol tuag at iaith.
- Mae iaith gydweddiadol yn dibynnu ar fodolaeth dau realiti y gellir eu cymharu â'i gilydd. Ni all 'Duw' gael ei gadarnhau mewn ffordd empirig felly mae'r ymagwedd anwybyddol hon yn methu.
- Mae Ramsay yn egluro adegau o fewnwelediad; fodd bynnag, mae'n well egluro'r rhain mewn modd lleihaol – anghenion seicolegol a chymdeithasol yn ogystal â phrosesau biolegol.
- Ni waeth sut gallwn ddefnyddio cydweddiad i egluro iaith grefyddol, nid yw'n goresgyn yr anhawster y gall iaith anwybyddol olygu pethau gwahanol i bobl gwahanol (h.y. mewn crefyddau gwahanol).

#### Gallai cwestiynau allweddol a all godi gynnwys y canlynol:

- A yw pobl fodern byth yn cael mewnwelediad lle maen nhw’n dod i sylweddoli bod mwy i fywyd na'r byd 'materol'?
- Pa esboniadau posibl allai fod am y mathau hyn o fewnwelediad (y pwynt bwled uchod)?
- A oes unrhyw sail empirig dros gredu bod mwy i'r byd na'r hyn a welwn? A yw'r ffaith bod llawer o bobl yn credu fel hyn yn gyfystyr â 'ffaith'?
- A yw dull cydweddiadol o ymdrin ag iaith grefyddol yn well na dull llythrennol? Pam, neu pam ddim?
- Beth fyddai'n cyfrif fel tystiolaeth o bresenoldeb realiti dwyfol?

#### Gallai casgliadau posibl i rai dadleuon a gyflwynwyd gynnwys y canlynol:

- Mae dulliau anwybyddol o ymdrin ag iaith grefyddol yn ddilys am eu bod yn adlewyrchu'r ffaith bod pobl ledled y byd yn cael mewnwelediad/greddf am ansawdd 'rhywbeth arall' i fywyd heb orfod cadarnhau ymagwedd lythrennol tuag at honiadau crefyddol.
- Nid yw dulliau anwybyddol o ymdrin ag iaith grefyddol yn ddilys am fod yn rhaid i ddau beth fodoli cyn y gallant gael eu cymharu; nid oes unrhyw brawf empirig o Dduw.
- Mae dulliau anwybyddol yn effeithiol wrth ddangos nad yw honiadau crefyddol bob amser yn llythrennol, ond mae angen tystiolaeth empirig o hyd i nodi p'un a yw'r honiadau anllythrennol hyn hyd yn oed yn ddilys.

**Uned 5 : Athroniaeth Crefydd**
**Thema 4 : Iaith grefyddol (rhan 2)**

Mae Athroniaeth Crefydd Thema 4 ABC yn ystyried chwe man cychwyn i ganolbwyntio arnynt wrth werthuso.

**Nod y pwynt bwled cyntaf yw ystyried effeithiolrwydd y termau anwybyddol, cydweddiadol a mytholegol fel atebion i broblemau iaith grefyddol.**

Gellir defnyddio'r chwe phwynt canlynol fel man cychwyn wrth ddatblygu dadl addas:

1. Mae cysylltu dim ond iaith wybyddol â'r hyn a all fod yn ystyrlon yn golygu derbyn safbwynt cyfyngedig iawn am iaith. Gan ein bod yn ystyried llawer o fathau o iaith anwybyddol yn ystyrlon bob dydd (o gadw addewidion i fynegi emosiwn) pam ystyried na all iaith grefyddol fod yn ystyrlon?
2. Mae iaith gydweddiadol a mytholegol yn cyfleu gwirioneddau a gwerthoedd cymhleth mewn ffordd syml y gellir ei chyfleu'n hawdd.
3. Nid ymddengys fod unrhyw ffordd arall o gyfleu gwirioneddau am gydberthynas pobl â'r cosmos heblaw drwy fathau anwybyddol o iaith.
4. Mae Positifwyr Rhesymegol yn dadlau mai dim ond iaith wybyddol sy'n disgrifio'r byd empirig. Os dywedwn nad oes angen i iaith gael ei phrofi'n empirig, yna gallem fod yn ddigon ffôl i gredu unrhyw beth o gwbl.
5. Mae cydweddiadau a mythau croes ynghyd ag amrywiaeth o ddehongliadau o'r mynegiadau hyn yn golygu bod iaith grefyddol yn dioddef diffyg eglurder a manwl gywirdeb. Mae'r diffyg eglurder hwn yn arwydd na ellir dibynnu ar wirionedd.
6. Mae llawer o gredinwyr crefyddol o'r farn bod eu honiadau yn wybyddol ac felly byddent yn gwrthod y tri safbwynt hyn (anwybyddol, cydweddiadol a mytholegol) ynghyd â'r ysgolheigion sy'n eu hyrwyddo fel elfen o'u hiaith grefyddol.

Gallai cwestiynau allweddol a all godi gynnwys y canlynol:

- A allwn ddeall neu wybod yn glir ddiben myth?
- A all yr ystyr o fewn mythau gael ei chyfleu mewn unrhyw ffordd arall?
- Pe byddem yn dileu mythau o iaith grefyddol, beth allai fod ar ôl?
- A yw mythau yn blentynnaidd?
- Os nad yw ein cefndir yn debyg i'r sawl sy'n ysgrifennu'r mythau, sut gall mythau olygu rhywbeth i ni?

Gallai casgliadau posibl i rai dadleuon a gyflwynwyd gynnwys y canlynol:

- Mae iaith anwybyddol neu fytholegol yn ateb effeithiol i broblemau iaith grefyddol. Mae'n galluogi'r crediniwr i fynegi ei gydberthynas â'r cosmos mewn ffyrdd na all iaith wybyddol ei disgrifio. Ar yr un pryd, gall y dehongliadau hyn fodoli ochr yn ochr â dealltwriaeth wyddonol o'r byd.
- Nid yw iaith anwybyddol neu fytholegol yn llwyddo i ddatrys problemau iaith grefyddol am nad yw'n ymdrin â'r broblem nad oes profiad a rennir rhwng y crediniwr a'r anghrediniwr fel y gall cyfathrebu ddigwydd. Yn wir, mae'n gwaethygu'r broblem hon am ei fod yn ychwanegu haen o ddehongliad i'r gwrandäwr ei chamddeall.
- Mae gan iaith anwybyddol neu fytholegol rywfaint o werth o ran mynd i'r afael â phroblemau iaith grefyddol. Gellir ei derbyn yn anllythrennol a hyd yn oed yn seiliedig ar emosiwn neu ffydd yn hytrach na ffaith empirig heb golli ei hunaniaeth grefyddol. Fodd bynnag, mae'n ffordd hen ffasiwn o gyfathrebu a gellir meithrin dealltwriaeth fwy cyson, aeddfed a gwyddonol o iaith yn ei lle.

## Uned 5 : Athroniaeth Crefydd
## Thema 4 : Iaith grefyddol (rhan 2)

Mae Athroniaeth Crefydd Thema 4 ABC yn ystyried chwe man cychwyn i ganolbwyntio arnynt wrth werthuso.

### Nod yr ail bwynt bwled yw ystyried perthnasedd materion yn ymwneud ag iaith grefyddol yn yr 21ain ganrif.

#### Gellir defnyddio'r chwe phwynt canlynol fel man cychwyn wrth ddatblygu dadl addas:

1. Mae symbolau eisoes yn rhan bwysig o fywyd yn yr 21ain ganrif – ffordd gyffredin o gyfleu syniadau cymhleth, e.e. emojis, ffilmiau ffuglennol epig, eiconograffeg chwaraeon a hysbysebu.
2. Mae'r ymateb emosiynol i iaith grefyddol yn cyfleu gwirioneddau sy'n dal i fod yn berthnasol i gredinwyr (a hyd yn oed anghredinwyr) yn yr 21ain ganrif.
3. Mae iaith grefyddol yn anwybyddol ac yn bwerus, gan ymdrin â materion y tu hwnt i'r empirig. Efallai fod materion o ran emosiynau, moesegau, estheteg, gwerthoedd a chrefydd yn rhy bwysig i fod yn amherthnasol byth?
4. Gall y ddealltwriaeth o iaith grefyddol newid dros amser. Nid yw iaith byth yn statig. Mae hyn yn golygu ei bod yn amhosibl deall beth mae sylfaenwyr crefyddol wir yn ei olygu neu i gredu na wnaiff honiadau crefyddol newid yn y dyfodol.
5. Mewn cymdeithas amlddiwylliannol, gall fod llawer o symbolau a llawer o ddehongliadau a all ddrysu a hyd yn oed rannu credinwyr. Yn wir, gall honiadau croes crefyddau gwahanol gael eu gweld fel arwydd o natur anystyrlon iaith grefyddol.
6. Nid yw iaith grefyddol yn ystyrlon i anghredinwyr yn hawdd. Ymddengys fod rhaid gwybod 'byd' cyfan o iaith ac ystyr a roddir gan gymuned grefyddol er mwyn deall honiadau crefyddol.

#### Gallai cwestiynau allweddol a all godi gynnwys y canlynol:

- A all datganiad ag ystyr anwadal byth gael ei ddeall gan bobl sy'n byw ar adeg wahanol?
- Sut gall pobl o ddiwylliannau neu ffydd gwahanol gyfathrebu os oes ganddynt i gyd symbolau gwahanol yn eu hiaith?
- Os yw'r ysgrythur yn symbolaidd, a yw ei ystyr wedi'i golli dros amser?
- Sut gallwn weld a yw symbolau crefyddol yn gywir ai peidio?
- Rydyn ni'n byw mewn oes wyddonol – a yw'r angen am symbolau wedi'i golli neu ei ddisodli?

#### Gallai casgliadau posibl i rai dadleuon a gyflwynwyd gynnwys y canlynol:

- Mae iaith grefyddol yn berthnasol yn yr 21ain ganrif am ei bod yn cyfoethogi iaith unrhyw a phob diwylliant. Heb y defnydd o symbolau mewn cymdeithas fodern rydyn ni'n peri'r risg o leihau iaith i'r 'Newspeak' a gyflwynwyd gan Orwell yn Nineteen Eighty-Four, sy'n cyfyngu ar unigoliaeth pobl ac yn ei rheoli.
- Nid yw iaith grefyddol yn berthnasol yn yr 21ain ganrif am fod syniadau ysgrythurol a fynegir drwy symbolau yn hen ffasiwn ac felly yn anystyrlon i ni heddiw. Ni allwn obeithio deall ystyr lawn syniadau o gyfnodau a mannau eraill am fod diwylliant wedi esblygu.
- Gall iaith grefyddol gael ei deall yn rhannol drwy ddadansoddiad hanesyddol a gall fod yn berthnasol i agwedd ar fywyd y gallwn ei phrofi, ond byddwn bob amser am wybod a yw'r iaith hon yn cyfeirio at 'realiti' mewn gwirionedd. Felly mae angen i ni ei barnu mewn ffordd wybyddol a fydd yn anochel yn awgrymu nad ydyn ni'n rhoi ein ffydd mewn haeriadau crefyddol ac yn chwilio am esboniad naturiol y tu hwnt i iaith grefyddol.

**Uned 5 : Athroniaeth Crefydd**
**Thema 4 : Iaith grefyddol (rhan 2)**

Mae Athroniaeth Crefydd Thema 4 ABC yn ystyried chwe man cychwyn i ganolbwyntio arnynt wrth werthuso.

**Nod y trydydd pwynt bwled yw ystyried i ba raddau y mae gemau ieithyddol yn darparu ffordd addas o ddatrys problemau'n ymwneud ag iaith grefyddol.**

Gellir defnyddio'r chwe phwynt canlynol fel man cychwyn wrth ddatblygu dadl addas:

1. Dadleuodd Wittgenstein fod problemau'n ymwneud ag iaith grefyddol yn deillio o'i chamddeall. Canolbwyntiodd ar y ffordd mae iaith o'r fath yn cael ei defnyddio – mae disgwrs ystyrlon yn cael ei bennu gan ddefnyddwyr iaith yn hytrach na realiti.
2. Mae iaith grefyddol yn cyd-fynd â damcaniaeth cydlyniant Wittgenstein o wirionedd: bydd gan rywbeth ystyr os yw'n rhesymegol i chi – mae'n cyd-fynd â gweddill eich credoau.
3. Fel y noda Alan Watts, mae'n ddefnyddiol cael mwy nag un ffordd o siarad am ein profiad o'r byd ac mae 'gemau ieithyddol' yn galluogi hyn - gall mwy nag un dull o fynegi'ch hun gael ei ystyried yn ystyrlon.
4. Os ceir ystyr mewn cyd-destun, yna pwy sy'n penderfynu rhwng fersiynau croes o ystyr? Ai damcaniaeth berthynolaidd o wirionedd yw hyn yn y pen draw?
5. Er mwyn deall gemau ieithyddol mae angen rhai rhagdybiaethau a chredoau. Dim ond y rheini mewn cymuned gyfyngedig a all eu deall.
6. Pan fydd credinwyr crefyddol yn gwneud honiadau am eu ffydd, ymddengys yn aml eu bod yn ceisio gwneud honiadau gwybyddol. Mae hyn yn golygu na ddylent gael eu heithrio o'r un dadansoddiad ag unrhyw honiad gwybyddol arall, ond eto i gyd ymddengys fod Wittgenstein yn ceisio rhoi imiwnedd i iaith grefyddol.

Gallai cwestiynau allweddol a all godi gynnwys y canlynol:

- All rhywun gymryd rhan mewn mwy nag un gêm ieithyddol ar y tro?
- Pa anawsterau a wynebwn wrth ddeall ystyr iaith mewn maes sy'n gwbl newydd i ni (pêl-droed, gemau cyfrifiadurol, yr eglwys ac ati)?
- A oes angen i unrhyw un arall fod yn rhan o'm gêm ieithyddol er mwyn iddi fod yn ystyrlon?
- A yw damcaniaeth gêm ieithyddol yn caniatáu i honiadau gwirion ddod yn fwy 'ystyrlon'?
- Sut gallwn fynd ati i herio neu ddadansoddi honiad crefyddol?

Gallai casgliadau posibl i rai dadleuon a gyflwynwyd gynnwys y canlynol:

- Mae gemau ieithyddol yn cynnig ffordd addas o ddatrys problemau iaith grefyddol am fod Wittgenstein yn cyfrif am yr ystod eang o ffyrdd y mae pobl yn cyfathrebu syniadau â'i gilydd. Mae hyn yn ffordd fwy ymarferol o ddeall iaith a gwirionedd, ac felly mae'n llawer mwy addas na'r gofyniad i bob datganiad ystyrlon gael ei ddilysu.
- Nid yw gemau ieithyddol yn darparu ffordd addas o ddatrys problemau'n ymwneud ag iaith grefyddol. Mae Wittgenstein yn ceisio atal credinwyr crefyddol rhag cael eu herio drwy eu disgrifio'n syml fel gêm wahanol. Mae hyn yn ei gwneud yn amhosibl i neb gwestiynu honiadau sy'n ymddangos yn groes neu hyd yn oed y tu hwnt i reswm, a all fod yn beryglus.
- Dim ond ffordd rannol addas o ddatrys problemau'n ymwneud ag iaith grefyddol y mae gemau ieithyddol yn ei darparu. Ar yr un llaw, mae'n parchu'r ffaith y gall ystyr iaith gael ei deall yn llawn mewn cyd-destun. Fodd bynnag, i lawer o gredinwyr, nid gêm na chysyniad anwybyddol yw bod 'Duw yn bodoli'. Byddent yn dadlau ei fod yn honiad ffeithiol ac yn rhywbeth y maen nhw'n gwybod ei fod yn wir.

## Uned 5 : Athroniaeth Crefydd
## Thema 4 : Iaith grefyddol (rhan 2)

Mae Athroniaeth Crefydd Thema 4 ABC yn ystyried chwe man cychwyn i ganolbwyntio arnynt wrth werthuso.

## Nod y pedwerydd pwynt bwled yw ystyried a ellir cytuno bod gan iaith symbolaidd ystyr digonol fel ffurf ar iaith

### Gellir defnyddio'r chwe phwynt canlynol fel man cychwyn wrth ddatblygu dadl addas:

1. Mae defnyddio symbolau i siarad am 'Dduw' yn ein hatal rhag meddwl y gall Duw gael ei gyfleu mewn iaith. Mae'n ffordd ystyrlon o siarad am drosgynoldeb. Mae dealltwriaeth Tillich o symbolau yn galluogi pobl i wneud mwy na dim ond labelu ffeithiau empirig
2. Mae llawer o ysgolheigion eraill wedi defnyddio symbolau mewn gwaith academaidd gan gynnwys Jung a Durkheim sydd o'r farn bod symbolau yn bwysig ac yn ddefnyddiol.
3. Mae gan iaith symbolaidd lawer o swyddogaethau defnyddiol mewn cymdeithas, gan gynnwys rhoi ffordd i ni fynegi emosiwn a dimensiynau bywyd na ellir siarad amdanynt drwy wyddoniaeth.
4. Mae ystyr symbolau yn newid gyda diwylliant ac amser; mae hyn yn golygu na all ystyr bwriadedig gwreiddiol testun crefyddol byth gael ei ddeall yn llawn
5. Gan nad yw symbolau yn wybyddol, ni allwn byth wybod a ydyn ni’n deall y symbol yn yr un ffordd â rhywun arall.
6. Nid oes unrhyw ffordd o wybod a oes unrhyw beth ffeithiol neu wybyddol yn cael ei gyfleu gan symbolau, felly maen nhw’n ddiwerth i gyfleu unrhyw beth i bobl eraill.

### Gallai cwestiynau allweddol a all godi gynnwys y canlynol:

- A allwn ddiffinio symbol heb ddefnyddio iaith symbolaidd yn y disgrifiad?
- A allwch ddilysu symbol neu brofi ei fod yn anwir?
- Sut gallwn sicrhau bod pawb yn deall symbol yn yr un ffordd?
- Pam y gallai fod yn bwysig bod pawb yn deall symbol yn yr un ffordd?
- Os yw symbol yn pwyntio y tu hwnt i'w hun, a ddylem ddisgwyl gallu gweld at beth mae'n pwyntio?

### Gallai casgliadau posibl i rai dadleuon a gyflwynwyd gynnwys y canlynol:

- Mae gan iaith symbolaidd ystyr digonol fel ffurf ar iaith am ei bod yn galluogi'r crediniwr crefyddol i ddeall yr ysgrythur mewn ffyrdd sy'n gwneud synnwyr yn y byd modern. Ni allwn yn rhesymegol ddeall bod llawer o'r ysgrythur yn wir yn llythrennol, ond os yw'n symbolaidd gall gynnwys cyfoeth o ystyr a bod yn ffynhonnell hanfodol o ffydd.
- Nid oes gan iaith symbolaidd ystyr digonol fel ffurf ar iaith am na fydd crediniwr crefyddol yn gallu derbyn nad yw ei honiadau crefyddol yn seiliedig ar ffaith. Pan fydd crediniwr yn honni bod 'Duw yn bodoli' nid yw'n golygu hyn yn symbolaidd; mae'n datgan yr hyn sy'n osodiad yn ei farn ef, ac nid yw iaith symbolaidd yn mynd i'r afael â hyn.
- Mae iaith symbolaidd yn rhannol ddigonol wrth roi ffurf ystyrlon ar iaith am ei bod yn rhoi cyfeirbwynt cyffredin i gredinwyr ac anghredinwyr ddeall ei gilydd, ond nid yw'n cynnig ffordd gadarn o sicrhau bod iaith yn cael ei deall yn union yr un ffordd.

## Uned 5 : Athroniaeth Crefydd
## Thema 4 : Iaith grefyddol (rhan 2)

Mae Athroniaeth Crefydd Thema 4 ABC yn ystyried chwe man cychwyn i ganolbwyntio arnynt wrth werthuso.

**Nod y pumed pwynt bwled yw ystyried i ba raddau y mae gwaith Randall a Tillich yn darparu ymateb addas i her Positifiaeth Resymegol**

### Gellir defnyddio'r chwe phwynt canlynol fel man cychwyn wrth ddatblygu dadl addas:

1. Dadleuodd Paul Tillich fod symbolau yn atal credinwyr rhag gwneud y camgymeriad o feddwl am Dduw fel 'peth' a all gael ei fesur (ac felly fe'i diystyriwyd gan bositifwyr rhesymegol). Maen nhw uwchlaw gwybodaeth empirig, gan roi ystyr llawer dyfnach i gysyniadau fel Duw, 'sail bodoli'.
2. Ni all Positifiaeth Resymegol ystyried dimensiynau emosiynol ac ysbrydol yn ystyrlon. Eto i gyd, mae llawer yn profi'r dimensiynau hyn. Credai J.H. Randall fod symbolau yn mynnu ymateb emosiynol, sy'n cyfleu llawer mwy na data ffeithiol.
3. Gwelodd J. H. Randall fod symbolau yn cymell credinwyr, gan eu dwyn ynghyd gydag ymatebion a rennir a dealltwriaeth gyffredin o weithredoedd crefyddol. Felly, mae ganddynt swyddogaeth gymdeithasol werthfawr.
4. Nid oes gan iaith grefyddol a mytholegol ystyr yn y byd modern, am na ellir ei dilysu.
5. Yn ôl Ayer, mae brawddegau a honiadau am Dduw yn anystyrlon am eu bod yn fetaffisegol eu natur.
6. Mae'n anodd deall yn iawn beth yn union yw iaith symbolaidd a beth mae'r symbolau yn ceisio ei gyfleu.

### Gallai cwestiynau allweddol a all godi gynnwys y canlynol:

- A yw symbolau mor wahanol â hynny i arwyddion?
- A fyddai crediniwr crefyddol yn hoffi'r syniad bod yr iaith grefyddol yn yr ysgrythur yn symbolaidd?
- Pa wybodaeth all symbol ei chyfleu?
- A yw symbolau yn cynnig her i iaith wyddonol / empirig?
- A yw'n bosibl i grefydd wneud unrhyw honiad gwybyddol o gwbl?

### Gallai casgliadau posibl i rai dadleuon a gyflwynwyd gynnwys y canlynol:

- Mae Randall a Tillich yn cynnig ymateb addas iawn i her positifiaeth resymegol gan eu bod yn darparu meini prawf clir o ystyr sy'n galluogi'r crediniwr a'r anghrediniwr fel ei gilydd i gyfathrebu. Mae hyn yn golygu ei bod yn bosibl cyfleu syniadau haniaethol neu emosiynol yn hytrach na dim ond yr ystod gyfyngedig o ffeithiau a all gael eu dilysu neu eu profi'n anwir.
- Nid yw Randall a Tillich yn cynnig ymateb addas i her positifiaeth resymegol oherwydd byddai llawer o gredinwyr crefyddol yn dadlau, wrth iddynt wneud hawliadau crefyddol, eu bod yn ceisio dweud rhywbeth gwybyddol. Mae lleihau datguddiad Duw i symbol yn unig yn dileu'r wybodaeth a'r gwirionedd a geir mewn iaith o'r fath.
- Mae Randall a Tillich yn cynnig rhywfaint o ymateb addas i her positifiaeth resymegol, hynny yw maen nhw'n darparu meini prawf hyblyg o ystyr ac maen nhw'n galluogi profiad dynol cyfoethog. Fodd bynnag, nid ydynt yn llwyddo'n gyfan gwbl am eu bod yn defnyddio
- iaith grefyddol i ddisgrifio iaith grefyddol ac nid oes modd gwirio unrhyw un o'u honiadau yn erbyn safon allanol.

## Uned 5 : Athroniaeth Crefydd
## Thema 4 : Iaith grefyddol (rhan 2)

Mae Athroniaeth Crefydd Thema 4 ABC yn ystyried chwe man cychwyn i ganolbwyntio arnynt wrth werthuso.

## Nod y chweched pwynt bwled yw ystyried a oes mwy o gryfderau na gwendidau yn perthyn i gemau ieithyddol.

### Gellir defnyddio'r chwe phwynt canlynol fel man cychwyn wrth ddatblygu dadl addas:

1. Mae ystyr y tu hwnt i wyddoniaeth. Dysgwn yr ystyr hwnnw drwy reolau a normau cymunedau. Wedi'r cyfan, cawn drafodaethau ystyrlon o'r byd y tu hwnt i'r llythrennol (barddoniaeth, cerddoriaeth a chelf). Mae Wittgenstein yn troi athroniaeth orllewinol ben i waered – nid ydyn ni'n dechrau gydag unigolion yn cael 'profiadau sylfaenol', rydyn ni'n dechrau gyda chymunedau yn dysgu iaith.
2. Daw'r cyfathrebu rhwng unigolion a grwpiau yn ystyrlon yn yr union ffordd mae Wittgenstein yn ei hawgrymu – drwy weithgareddau sy'n cael eu llywio gan reolau, a ddeellir mewn 'ffurf ar fywyd'.
3. Pan sylweddolir bod gan iaith ystyr mewn cyd-destun penodol mae hyn yn dileu problem iaith grefyddol. Dyna sut mae realiti'n cael ei gyfleu a gall hyn hyrwyddo deialog a pharch.
4. Onid yw'r ddamcaniaeth hon yn hunandrechol? Os gwelir ystyr iaith 'wrth ei defnyddio', yna sut gall Wittgenstein sefyll y tu hwnt i bob ffurf ar fywyd a datgan mai dyma'r achos?
5. A oes unrhyw realiti y tu hwnt i gemau ieithyddol? Nid yw Wittgenstein yn glir? Onid oes angen gwyddoniaeth arnom er mwyn sefydlu'r gwirionedd terfynol?
6. Mae gemau ieithyddol yn tybio ein bod yn dysgu rheolau ieithyddol gwahanol mewn gwahanol grwpiau/ffurfiau ar fywyd – os yw hyn yn wir yna mae'n anodd siarad â'n gilydd. Eto i gyd rydyn ni'n siarad â'n gilydd drwy'r amser ac yn ymddangos fel pe baem yn deall beth rydyn ni'n ei ddweud wrth ein gilydd. Efallai nad oes rhaid i ni 'ddysgu'r rheolau' drwy'r amser?

### Gallai cwestiynau allweddol a all godi gynnwys y canlynol:

- A oes unrhyw fath o siarad y byddai Wittgenstein yn ei ystyried yn anystyrlon?
- A yw wir yn amhosibl i bobl mewn gwahanol ffurfiau ar fywyd gyfathrebu â'i gilydd?
- Sut gallai crediniwr ymateb i'r syniad ei fod yn arddel barn gwrth-realaidd?
- A all anffyddiwr byth ddeall honiadau crediniwr crefyddol? (Neu'r crediniwr ddeall yr anffyddiwr?)
- Pa wahaniaeth y mae Wittgenstein yn ei wneud i ddeall iaith grefyddol?

### Gallai casgliadau posibl i rai dadleuon a gyflwynwyd gynnwys y canlynol:

- Mae cryfderau gemau ieithyddol yn drech na'r gwendidau am eu bod yn nodi'n glir sut rydyn ni'n dysgu iaith ac yn ei deall. Awn ati i feithrin dealltwriaeth drwy ein hamgylchedd neu ffurf ar fywyd ac felly nid oes unrhyw reswm pam y dylai ein dealltwriaeth fod yn well neu'n waeth nag unrhyw ffurf arall ar fywyd. Yna gall iaith grefyddol ond cael ei deall gan y rhai sy'n ei defnyddio o fewn eu ffurf ar fywyd nhw.
- Mae gwendidau gemau ieithyddol yn drech na'r cryfderau am nad ydynt yn rhoi ystyr na gwirionedd terfynol i bobl. Mae hefyd yn rhwystro dealltwriaeth – ni allwn wybod beth mae eraill yn ei olygu os nad ydyn ni'n rhan o'u 'ffurf ar fywyd'. Yn amlwg nid dyma realiti'r sefyllfa o ran crefydd pan welwn bobl yn newid o gredu i beidio â chredu, a'r gwrthwyneb.
- Nid oes ots p'un a oes gan Gemau Ieithyddol fwy o wendidau neu gryfderau oherwydd, yn y pen draw, nid yw Wittgenstein yn gwneud unrhyw wahaniaeth i'r ffordd rydyn ni'n defnyddio iaith ac nid yw'n cynnig unrhyw sail gadarn dros newid. Felly, bydd y Positifydd Rhesymegol yn parhau i weld yr anawsterau, a bydd y crediniwr crefyddol yn parhau i wneud yr honiadau. Nid oes unrhyw beth yn newid o ganlyniad.